

Peilot ariannu cyson i addysg gynnar a gofal plant yn Sir y Fflint: gwerthusiad ansoddol o effeithiau cynnar

Adroddiad terfynol gan:
Ymchwil Arad

Hydref 2019

Ymchwil Arad Research
8 Columbus Walk
Brigantine Place
Cardiff / Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.arad.wales

ymchwil
arad
research

1. Cyflwyniad

Rhwng Ionawr ac Awst 2019, rhedai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, brosiect peilot i brofi effaith graddfa ariannu gyson ar gyfer addysg gynnar a gofal plant. Ymgwymerodd Ymchwil Arad werthusiad o'r peilot hwn i gyd-rhedeg â'u gwerthusiad ddwy flynedd o'r Gweithrediad Cynnar y Cynnig Gofal Plant yng Nghymru.

1.1 Cefndir

Mae Darpariaeth Feithrin Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant sydd o dan yr oedran addysg orfodol (3 a 4 mlwydd oed), a elwir hefyd yn addysg y blynyddoedd cynnar neu (FPN) wedi bod yn ei le ers 1999. Lansiodd Cynnig Gofal Plant i Gymru (y Cynnig) gan Lywodraeth Cymru yn 2017, gan gefnogi 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y Llywodraeth am i fyny i 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer rhieni sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair blwydd oed yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys darparu o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg FPN ac i fyny i 20 awr yr wythnos o ofal plant sydd yn cael eu hariannu. Ariennir gofal plant yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, ond cefnogir awdurdodau lleol i ariannu FPN, ac y nhw, felly, sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynglŷn ag ariannu FPN, gan gynnwys cyfraddau.

Ar hyn o bryd gosodir ariannu gofal plant o dan y Cynnig ar gyfradd safonol o £4.50 yr awr am bob plentyn ar draws holl lleoliadau gofal plant cyfranogol yng Nghymru. Ar y llaw arall, mae cyfradd ariannu FPN yn amrywio ar draws ac oddi fewn awdurdodau lleol. Yn seiliedig ar cyfrifiadau Llywodraeth Cymru ar ddata 2018, roedd y gyfradd ariannu ganolrif a gynhigid i ddarparwyr a oedd yn cyflawni'r 10 awr (neu fwy, mewn rhai achosion) o FPN o gwmpas £2.96 yr awr am bob plentyn ar draws Gymru.

Tanlinellwyd y gwahaniaethau rhwng yr ariannu a dalwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer darparu FPN ac elfen gofal plant y Cynnig 1gan weithrediad cynnar y Cynnig. Roedd hyn wedi creu'r gofid y gallai rhai darparwyr, sydd yn cynnig gofal plant ac FPN, beidio â darparu FPN bellach, gan ffafrio darpariaeth gofal plant, sy'n denu gwell gynhaliadau ariannol.

Er mwyn ymateb i hyn, ym mis Ionawr 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bwriad i redeg cynllun peilot yn Sir y Fflint i ymchwilio i'r effaith o godi'r ariannu ar gyfer FPN fel ei bod yn gydradd â'r gyfradd gyfredol o £4.50 ar gyfer gofal plant. Roedd y gyfradd newydd hon yn berthnasol i blant sy'n derbyn FPN mewn gosodiadau nas cynhelir yn unig, ac i blant oedd yn derbyn FPN1 yn unig (hynny yw, plant a oedd wedi cyrraedd tair oed cyn ddechrau tymor y gwanwyn 2018/19, ond nad oedd wedi dechrau darpariaeth FPN2, sydd ar gael ar ddechrau'r tymor ar ôl cyrraedd pedair blwydd oed). Roedd y gyfradd ariannu newydd hon ar gael i'r gosodiadau nas cynhelir ar gyfer tymhorau'r Gwanwyn a Haf yn y flwyddyn academaidd 2018/19.

Bwriad y gwerthusiad hwn yw cyrraedd dealltwriaeth ynglŷn â sut mae darparwyr yn defnyddio'r ariannu ychwanegol, effeithiolrwydd unrhwy wariant a wnaed, a'r canlyniadau sy'n deillio o hynny. Mae'r gwerthusiad hefyd yn bwriadu ymchwilio i sut yr oedd y gyfradd ariannu beilot wedi dylanwadu ar gynlluniau gweithredu FPN1 cyfredol ac arfaethedig y darparwyr, yn ogystal â sut y gallai gynnal neu ddiddymu'r gyfradd ariannu peilot effeithio eu cynlluniau.

¹ Gwerthusiad Gweithrediad Cynnar y Cynnig Gofal plant i Gymru adran 6.22 (tudalen 121)

1.2 Darpariaeth gyfredol yn Sir y Fflint

FPN yw addysg rhan-amser ar gyfer plant 3 a 4 blwydd oed cyn iddynt gael mynediad i addysg orfodol yn 5 mlwydd oed. Gofynnir i awdurdodau lleol sicrhau darpariaeth leiafswm o 10 awr yr wythnos o FPN1 ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed. Hefyd, gofynnir iddynt ddarparu lle ar gyfer FPN1 gan gychwyn y tymor ar ôl penblwydd y plentyn yn 3 blwydd oed. Bydd rhai blant yn derbyn pum tymor, rhai pedwar, a rhai tri thymor, gan ddibynnu ar ba bryd y cawsant eu geni.² Yn Sir y Fflint, mae hawl i blant sydd wedi cael eu tair oed rhwng 1af o Fedi a'r diwrnod olaf gwyliau'r Nadolig i dderbyn FPN1 o ddechrau Tymor y Gwanwyn. Mae hawl gan blant sydd yn cael eu tair oed yn ystod Tymor y Gwanwyn hyd at ddiwrnod olaf Gwyliau'r Pasg yr ysgol dderbyn 10 awr o FPN1 a ariennir, o ddechrau Tymor yr Haf yr ysgol.

Yn Sir y Fflint darperir y rhan fwyaf o FPN mewn gosodiadau a gynhelir, ysgolion cynradd. Ond, mae hefyd 50 o osodiadau nas cynhelir (preifat a thrydydd sector) gofal plant a chylchoedd chwarae sydd wedi eu cofrestru i ddarparu FPN1 i blant cymwys o dan eu gofal.

Cyn i'r cyfnod peilot a ystyrir yn yr adroddiad hwn (tymhorau ysgol y Gwanwyn a'r Haf 2019, gosodwyd yr ariannu ar gyfer darpariaeth FPN1 gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfradd o oddeutu £185 y tymor ysgol academaidd i bob plentyn cymwys. Roedd hyn yn cyfateb i £2.91 yr awr y plentyn ar gyfradd ariannu ar draws pob gosodiad. Yn ystod y cyfnod peilot, fodd bynnag, cynigiwyd cyfradd ariannu o £4.50 yr awr i bob plentyn cymwys i osodiadau plant nas cynhelir i ddarparu FPN1. Roedd hyn wedi sicrhau bod y gyfradd ariannu ar gyfer darparu FPN1 mewn gosodiadau nas cynhelir yn gydradd â'r gyfradd ariannu ar gyfer blant sy'n gymwys ar gyfer y Cynnig.

Tabl 1: Math a nifer y gosodiadau nas cynhelir sy'n darparu FPN1 yn Sir y Fflint

Math o osodiad	Nifer y gosodiadau	Nifer ar gyfartaledd o blant a gefnogir gan FPN ym mhob gosodiad	Nifer ar gyfartaledd o blant a gefnogir gan y Cynnig Gofal plant ym mhob gosodiad
Grwpiau chwarae	28	10	6
Meithrinfeydd Dydd	22	14	19

Ffynhonnell: data Cyngor Sir y Fflint

Noder: nid yw'r ffigurau hyn yn cynnwys gosodiadau a oedd wedi eu cofrestru i ddarparu FPN, ond sydd heb eu cofrestru bellach.

² Darpariaeth Cyfnod Sylfaen blant tair a phedair oed:

2. Dull

Yn ystod y cyfnod peilot, bu 50 o osodiadau nas cynhelir wrthi'n darparu FPN 1 i blant tair oed, gyda bron pob un hefyd yn darparu'r elfen gofal plant y Cynnig. Bu i'r holl 50 o osodiadau dderbyn y gyfradd ariannu uwch FPN 1 a oedd ar gael yn ystod y cyfnod peilot.

Dewiswyd sampl o 10 gosodiad darparu i gymryd rhan mewn cyfweiliadau ffôn un i un. Cynhaliwyd y cyfweiliadau gyda'r rheolydd, arweinydd, neu'r unigolyn o fewn y gosodiad a oedd â dealltwriaeth da o'r ddarpariaeth addysgol a gynhigid, gwybodaeth o'r cynllun peilot, a sut y dylanwadai benderfyniadau pellach ar ddarpariaeth addysg a gofal plant.

Roedd y trafodaethau wedi canolbwyntio ar y materion canlynol:

- Gwybodaeth/ymwybyddiaeth flaenorol o'r gwahanol gyfraddau ariannol rhwng FPN a gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru;
- Sefyllfa ariannol y gosodiadau cyn ac yn ystod y peilot;
- Effaith talu'n gydradd;
- Sut y defnyddiwyd yr ariannu FPN 1 ychwanegol;
- y gwahaniaeth a wnaed gan yr ariannu ychwanegol;
- y gwahaniaeth a wnaed gan yr ariannu ychwanegol i flaengynllunio a chynaliadwyedd?

Yn ogystal â'r cyfweiliadau ffôn, cynhaliwyd dau gyfweiliad wyneb i wyneb pellach gyda darparwyr gofal plant nas cynhaliwyd a oedd hefyd wedi derbyn arian i ddarparu FPN 1. Defnyddiwyd y wybodaeth o'r cyfweiliadau wyneb i wyneb er mwyn datblygu'r astudiaethau achos manwl a gyflwynir yn Adran 5 yr adroddiad hwn. Bu trafodaethau hefyd gyda thîm Hawl Bore Oes/Cynnig Gofal Plant Cyngor Sir y Fflint.

Yn ogystal â'r casgliad o dystiolaeth ansoddol a grynhowyd yn ystod y cyfweiliadau, roedd y gwerthusiad wedi adolygu data monitro a gasglwyd, a dadansoddi'r canfyddiadau a gasglwyd oddi wrth arolwg o ddarparwyr a wnaethpwyd gan Gyngor Sir y Fflint. Gwelir cwestiynau'r arolwg yn yr atodiad.

3. Canfyddiadau

Yn yr adran hon amlinellir dylanwad y mae cyflwyniad cyfradd ariannu gyson i gyflenwi gofal plant ac FPN 1 o fewn y Cynnig, wedi cael ar sefyllfa ariannol tymor byr y gosodiadau a gymerodd rhan, yn ogystal â chynlluniau tymor byr a thymor hwy mewn perthynas â'r cynlluniau parhaus i gyflenwi darpariaeth FPN 1.

3.1 Effaith ar sefyllfa ariannol y gosodiadau

Mae'r cynnydd o ran ariannu darpariaeth FNP i'w gwneud yn gydradd â'r gyfradd gofal plant bresennol o £4.50 wedi cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar sefyllfa ariannol y gosodiadau a holwyd. Yn gyffredinol, mae'r gosodiadau gofal dydd sesiynol a gyfwelwyd wedi gweld bod y cynnydd o ran ariannu wedi cael effaith fwy ar eu sefyllfa ariannol na'r gosodiadau gofal dydd llawn. Y prif rheswm am y gwahaniaeth hyn yw'r ffaith fod ariannu FPN 1 yn dueddol o fod yn gyfran uwch o'u incwm na gosodiadau gofal dydd llawn.

Roedd y mwyafrif o'r gosodiadau a gyfwelwyd wedi nodi eu bod nhw'n ymwybodol o'r gwahaniaeth yn y gyfradd ariannu ar gyfer darparu FPN a'r gyfradd ariannu i ddarparu gofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae cyflwyno'r lefel ariannu peilot wedi gwneud y gwahaniaeth yn fwy amlwg byth ymhlith y gosodiadau a gyfwelwyd. Mynegai'r gosodiadau hyn eu syndod pan ddysgent faint oedd y gwahaniaeth. Roeddent hefyd o'r farn na ddylai fod gwahaniaeth, gan fod yna lwyth gwaith uwch o ran gyflenwi darpariaeth FPN, o'i gymharu ag elfen gofal plant y Cynnig.

“Oherwydd y peilot, rwy'n fwy ymwybodol ohono [y gwahaniaeth o ran cyfraddau ariannu]. Ces i fy synnu i weld bod gosodiadau yn derbyn mwy am y Cynnig Gofal Plant a'n bod ni yn derbyn llai am Hawl Bore Oes, er bod rhaid i ni wneud mwy o waith papur [am Hawl bore Oes]” (gosodiad dydd sesiynol)

“Mae hi'n [cyfraddau ariannol cydradd] hen bryd, yn enwedig ers cyflwyno'r Cynnig Gofal Plant, ble mae llai o fonitro, gan mai gofal yn unig yw e – nid addysg. ‘Dyw ariannu Hawl Bore Oes ddim wedi codi erioed. Mewn gwirionedd, aeth hi lawr ar un adeg”. (gofal dydd sesiynol)

Mae canfyddiadau sy'n codi o arolwg darparwyr Cyngor Sir y Fflint yn cefnogi'r canfyddiadau o'r cyfweiliadau, gyda nifer o ymatebwyr yn cyfeirio at y llwyth gwaith uwch o ran cyflenwi FPN 1 o'i gymharu â gofal plant. Nodai rhai o'r ymatebwyr fod y gwaith ychwanegol yn aml yn gorfodi aelodau'r staff i weithio y tu allan i'w horiau gwaith. Mae sylwadau darparwyr hefyd yn awgrymu nad ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, a bod eu morâl yn isel o'i herwydd. Yn ogystal, mae tua hanner yr ymatebwyr yn nodi eu bod nhw'n brwydro'n ariannol i gwrdd â'r gost o gyflenwi FPN 1.

“Roedden ni’n teimlo’n gryf nad oedden ni’n cael ein gwerthfawrogi, a bod y Cynnig yn £4.50 yr awr (sy’n rhesymol), a Hawl Bore Oes yn £2.91. Doedd y gwaith angenrheidiol (gyda chostau staff) ddim yn cael ei ddiwallu gan y gyfradd.”

Yn dilyn cyflwyniad y gyfradd FPN fwy, nodai’r mwyafrif o osodiadau bod eu sefyllfa ariannol wedi gwella. I lawer o osodiadau, roedd y peilot wedi eu galluogi nhw i aros yn hyfyw yn ariannol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig i’r gosodiadau a nodent eu bod, cyn y peilot, yn wynebu heriau ariannol oherwydd nad oedd yr incwm o ariannu FPM a chodiadau ar gyfer gofal plant yn ddigon i gwrdd â’u costau rhedeg. Mae’r gosodiadau hyn yn aml yn nodi mai cyn i’r peilot y bydden nhw’n dibynnu ar godi arian neu/a grantiau ariannu cynaliadwyedd i aros yn hyfyw yn ariannol. I’r gosodiadau hyn, roedd y £1.59 awr/plentyn yn golygu’r gwahaniaeth rhwng aros ar agor i gyflenwi gofal plant a FPN 1 ill dau, neu’n gau yn gyfan gwbl.

“Mae’r arian ychwanegol yn ein galluogi ni i gadw i fynd am y flwyddyn nesaf. Roedd hi mor anodd cyn hynny, er i ni’n dal i frwydro nawr”. (gosodiad gofal dydd sesiynol)

“Oherwydd y codiad mae’r gosodiad yn fwy cynaliadwy. O’r blaen roedden ni’n dibynnu ar gael mynediad i gymorthdaliadau i’n gwneud yn fwy gynaliadwy. Ond yn awr, gallen ni geisio am gymorthdaliadau i symud ymlaen yn hytrach nac aros yn ein hunfan. Er enghraifft, gallen ni wneud ceisiadau am grantiau ar gyfer offer, yn hytrach nac aros ar agor.” (gosodiad gofal dydd sesiynol)

Gyda gosodiadau eraill a gyfwelwyd, roedd y cynnydd mewn ariannu FPN1 wedi eu galluogi nhw i brynu offer megis beiciau, i-pads, argraffydd, ac adnoddau TG eraill na fyddent wedi bod o fewn eu gafael. Roedd y gosodiadau hyn o’r farn fod yr offer a brynwyd wedi eu galluogi nhw i godi ansawdd eu darpariaeth FPN, a bod hynny wedi gwella profiadau a dysgu eu plant.

“Mae’r peilot wedi ein helpu ni gyda chyflog y staff, a gallwn ni nawr brynu mwy o adnoddau TG ar gyfer y plant, e.e gliniaduron. Gallwn ni gael mynediad at rhaglenni, meddalwedd ac apiau ar gyfer y plant gyda’r gliniaduron newydd” (gosodiad gofal dydd sesiynol)

“Rydyn ni wedi buddsoddi’r arian nôl mewn i’r gosodiad, gan sicrhau ei fod yn osodiad o safon uchel.” (gosodiad gofal dydd sesiynol)

Nodai rhai gosodiadau fod y cynnydd o ran ariannu FPN 1 wedi eu galluogi nhw i ariannu hyfforddi a fyddai wedi bod y tu hwnt iddyn nhw oni bai amdano. Er enghraifft, esboniodd un gosodiad mai cyn y peilot, dim ond hyfforddiant am ddim, pryd bynnag roedd hynny ar gael, roedden nhw’n medru ei fforddio, oherwydd roedd eu sefyllfa ariannol yn golygu nad oedden nhw’n medru fforddio talu am hyfforddiant nad oedd yn orfodol.

Esboniodd gosodiad arall eu bod nhw'n medru rhyddhau staff i fynychu cyrsiau hyfforddi ers y peilot, oherwydd eu bod nhw'n gallu fforddio i dalu aelod arall o'r staff i gymryd ei le tra byddant yn mynychu'r cwrs. Mae enghreifftiau o'r math o hyfforddiant y gallai staff eu mynychu yn cynnwys:

- Makaton (math o gyfathrebu i helpu plant gydag anawsterau lleferydd, sy'n defnyddio arwyddion ac arwyddluniau lleferydd)
- Bwyta'n iach
- Llythrennedd
- TG

Yn ogystal â galluogi staff i fynychu hyfforddiant, mae'r cynnydd mewn ariannu FPN 1 wedi galluogi un gosodiad i gyflogi mwy o staff er mwyn rhannu'r plant o dan eu gofal i ddwy ystafell wahanol, yn ôl eu hoedran. Mae'r gosodiad hwn nawr yn gofalu am blant 2 flwydd oed mewn un ystafell, a phlant 3 oed mewn ystafell arall, ac o ganlyniad yn gwella ansawdd y ddarpariaeth i'r ddwy oedran (gweler hefyd Astudiaeth Achos 2 fel enghraifft o sut mae'r ariannu ychwanegol wedi galluogi gwell ffocws ar ansawdd).

"Mae e wedi bod yn help enfawr. Rydyn ni wedi gallu rhannu ein plant 2 a 3 blwydd oed i ddwy ystafell ar wahân. Mae staff wedi cymryd fwy o oriau ymlaen i redeg y ddwy ystafell... Oni bai am y Cynnig, dydw i ddim yn meddwl y bydden ni wedi gallu rhedeg ein hystafell Hawl bore Oes. 'Dyw'r arian ddim hyd yn oed yn ddigon i dalu un aelod o'r staff am un awr". (Gosodiad gofal dydd llawn)

Mae canfyddiadau o'r arolwg yn adleisio'r canfyddiadau hyn o'r cyfweiliadau, gyda chanran uchel o ddarparwyr yn nodi bod y cynnydd yng nghyfradd ariannu FPN 1 wedi eu galluogi nhw i aros yn hyfyw yn ariannol. I'r gosodiadau hyn, mae'r ariannu ychwanegol wedi cael ei ddefnyddio i dalu cyflog staff a biliau cyfleustodau. Cynigiai darparwyr eraill enghreifftiau o sut maen nhw wedi defnyddio'r cynnydd ariannu i wella ansawdd eu gosodiadau trwy brynu offer newydd ac adnoddau.

"[Rydyn ni wedi defnyddio'r ariannu ychwanegol i gwrdd â...] chostau rhedeg, cyflog staff, a phrynu adnoddau angenrheidiol i'r plant, paent, papur, cerdyn ayb"

"Roedd angen yr ariannu ychwanegol ar gyfer costau staffio, achos bod rhaid i mi gael staff ychwanegol o gwmpas mis Ebrill i Fehefin i helpu'r staff i ddygymod â'r holl waith papur sy'n gysylltiedig â chyflenwi FPN 1."

"Mae'r arian ychwanegol wedi ein galluogi ni i ddatblygu ein hardal tu allan ac i brynu adnoddau ychwanegol."

Yn gyffredinol, mae cynnydd ariannu FPN 1 wedi cael effaith gadarnhaol ar y gosodiadau a gyfwelwyd. Mae gosodiadau nad oedd yn gynaliadwy ac oedd yn ystyried cau cyn gyflwyniad y peilot, yn awr wedi dod yn fwy cynaliadwy. Mae gosodiadau a oedd eisoes yn hyfyw yn ariannol wedi medru prynu offer newydd, cael mynediad i hyfforddiant i'w staff ac, mewn un achos, cynyddu nifer y staff. Yn eu barn nhw bydd y newidiadau hyn yn gwella'n sylweddol y ddarpariaeth FPN 1 y gallan nhw nawr yn ei chynnig – byddai hyn oll wedi bod yn anodd i'w gyflawni heb y cynnydd yn y gyfradd ariannu.

3.2 Effaith ar ddarpariaeth FPN

Nodai un neu ddau o'r darparwyr a gyfwelwyd y byddent wedi parhau i gyflenwi FPN 1 beth bynnag, heb y cynnydd yn y gyfradd ariannu. Nodai un o'r gosodiadau y trosglwyddid gwerth yr ariannu yr oeddent wedi ei dderbyn am gyflenwi FPN i bob plentyn cymwys yn uniongyrchol i'r rhieni ar ffurf biliau gofal plant llai. Fel y cyfryw, ni chai'r cynnydd ariannu a dderbyniwyd effaith ar sefyllfa ariannol eu sefydliad, ond fe wnaeth leihau'r costau cyffredinol gofal plant a godir ar rhieni. Esboniodd yr un gosodiad pe bai'r ariannu FPN yn dychwelyd i'r gyfradd wreiddiol cyn y peilot, bydden nhw yn codi mwy ar y rhieni am eu costau gofal plant cyffredinol. Fel y cyfryw, ni fyddai goblygiadau ariannol i'r gosodiad, ond fe fyddai ergyd negyddol i sefyllfa ariannol y rhieni.

“Byddai popeth yr un peth beth bynnag am y gyfradd ariannu. Yr unig effaith ar y rhieni fydd codiad yn eu biliau.”

Nodai gosodiad arall mai gan eu bod wedi eu lleoli mewn ardal lled ddifreintiedig yn Sir y Fflint, FPN 1 wedi ei ariannu oedd yr unig ddarpariaeth a oedd ar gael i blant tair a phedair oed. Amlinellwyd ganddynt nad oedd y mwyafrif o rieni lleol yn medru fforddio dalu am ofal plant preifat. Oherwydd hyn, nid oedd atal FPN 1 i ffafrio dulliau eraill o ofal plant yn opsiwn realistig iddynt. Roedd y darparydd hwn yn ystyried cyflenwi FPN 1 yn “ddyletswydd” neu “cyfrifoldeb” oherwydd nad oedd ganddynt lawer o ddewisiadau o ran gyrchu addysg gynnar.

Nodai tri o'r deg darparydd nad oedd darparu FPN 1 yn fasnachol hyfyw ar gyfer eu gosodiadau. Fodd bynnag, nodent hefyd y byddent mwy na thebyg wedi parhau i gyflenwi FPN 1 hyd yn oed ar y gyfradd is, gan ofni y byddai peidio â gwneud hynny yn golygu y byddai rhieni'r holl blant tair oed sydd ar hyn o bryd yn mynychu eu gosodiadau ar gyfer FPN 1 a gofal plant yn symud i osodiad arall. Roedd hyn yn bryder penodol ymhlith gosodiadau gofal dydd sesiynol, gan gynnwys cylchoedd chwarae a chylchoedd meithrin (gweler hefyd Astudiaeth Achos 1). Nodai llawer o'r gosodiadau hyn eu bod nhw'n defnyddio'r incwm gofal plant i wrthbwysu'r gost net o gyflenwi FPN 1.

“Ni fydden ni'n medru cyflenwi Hawl Bore Oes (FPN 1), ond hefyd ni fydden ni'n medru peidio ei wneud, oherwydd bydden ni wedi colli plant i osodiad arall, a hefyd yr ariannu.”

Nodai tua hanner y gosodiadau y bydden nhw wedi dwys ystyried, neu eisoes wedi cynllunio i ollwng darpariaeth FPN 1 os y byddai'r ariannu wedi aros ar y gyfradd flaenorol. I'r darparwyr hyn,

nid oedd y gyfradd is a dalwyd ar gyfer FPN 1 yn cyfiawnhau beth yr oedden nhw yn ystyried yn waith ychwanegol (gan gynnwys arsylwi a chreu proffiliau plant), cyfrifoldeb ac atebolrwydd (gan gynnwys arolwg Estyn) sy'n gysylltiedig â darparu addysg blynyddoedd cynnar.

Nodai un darparrydd fod nifer o blant yn eu gosodiad a oedd yn gymwys i dderbyn y Cynnig dim ond yn archebu neu ddefnyddio 20 awr neu lai o'r 30 awr o'r gofal plant wedi ei ariannu ac FPN 1 sydd ar gael ar eu cyfer. Ar hyn o bryd mae'r Cynnig yn y gosodiad hwn yn cynnwys 10 awr o FPN 1 wedi ei ariannu, gyda'r 20 awr sy'n weddill yn cael eu hystyried fel oriau gofal plant wedi eu hariannu. Esboniodd y darparrydd pe bydden nhw'n peidio â chyflenwi FPN 1, byddai'r rhieni/plant hyn o bosibl yn medru hawlio'r uchafswm o 20 awr o ddarpariaeth gofal plant wedi ei ariannu, yn hytrach na hollti eu hariannu rhwng 10 awr o FPN 1 a 10 awr o ofal plant. Ym marn y darparrydd, nid yw'r mwyafrif o rieni yn canfod yn glir y gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofal plant a darpariaeth FPN 1, yn enwedig pan fydd yn cael ei gyflenwi o fewn yr un gosodiad. Nodai'r darparrydd mai blaenoriaeth mwyafrif rhieni plant rhwng 3 a 4 oed yw sicrhau bod eu plentyn yn derbyn gofal gan rhywun cyfrifol sydd wedi ei gymhwysu am yr oriau angenrheidiol bob wythnos. Naill ffordd na'r llall, bydden nhw'n medru sicrhau bod eu plentyn yn derbyn gofal o fewn yr un gosodiad, am yr oriau angenrheidiol bob wythnos, heb unrhyw wahaniaeth o ran y gost.

3.3 Effaith ar flaengynllunio/cynaliadwyedd – Cynlluniau ar gyfer cyflenwi FPN yn y dyfodol

Nodai un darparrydd nad oedden nhw'n cynllunio i barhau gyda'u darpariaeth bresennol, hyd yn oed pe bai'r gyfradd ariannu'r peilot yn parhau. I'r darparrydd hwn, nid yw hyd yn oed y gyfradd ariannu uwch yn adlewyrchu'r amser, adnoddau ac atebolrwydd ychwanegol sydd ynghlwm â chyflenwi FPN 1.

Nodai'r mwyafrif o ddarparwyr eraill y byddai'r gobaidh o gyfradd ariannu uwch barhaol yn eu rhoi nhw mewn sefyllfa ariannol fwy cynaliadwy, ac y byddai hynny, yn ei dro, yn eu galluogi nhw i wneud penderfyniadau cynllunio cadarn ar gyfer y dyfodol, yn hytrach na "goroesi" ar sail o ddydd i ddydd.

Nodai cynrychiolwyr Cyngor Sir y Fflint fod dau ddarparrydd nas cynhelir wedi peidio â chyflenwi FPN 1 yn ddiweddar, ac yr oedd un wedi cau yn gyfan gwbl, ac felly nid oedd yn cyflenwi gofal plant na FPN 1. Yn ôl cynrychiolwyr y Cyngor, y prif rheswm am y penderfyniad i gau oedd nad oedd cyflenwi FPN 1 yn hyfyw yn ariannol.

3.4 Beth fyddai'n digwydd pe bai'r ariannu'n dychwelyd i'r gyfradd flaenorol

Mae'r cynnydd mewn ariannu FPN 1 wedi annog rhai darparwyr a gyfwelwyd, a oedd yn ystyried peidio â chyflenwi eu darpariaeth FPN cyn y peilot, i barhau i gyflenwi FPN.

"Cawsom ni ein siomi wrth sylweddoli'r gwahaniaeth (yn y raddfa ariannu i FPN a'r Cynnig) achos bod yna lawer mwy o waith papur ynghlwm â Hawl Bore Oes gyda'r arsylwi. Ac roedd y Cynnig yn fwy am ofal plant. Roedden ni'n ystyried gwneud y Cynnig yn unig." (Gosodiad gofal dydd sesiynol)

Pe bai'r ariannu'n dychwelyd i'r gyfradd cyn y peilot, nodai tua hanner y gosodiadau y bydden nhw'n gorfod ystyried a fydden nhw'n barod i barhau i gyflenwi FPN 1.

“Byddai rhaid i ni ystyried tynnu allan o'r cynllun gan fod y rhieni'n talu gormod dros eu plant. Mae e wedi uwchleuo'r ffaith nad yw e'n hyfyw, a'i wneud e'n fwy amlwg y dylen ni adael os bydd FPN yn syrthio nôl i'r gyfradd flaenorol.”
(gosodiad gofal dydd sesiynol)

Fe awgrymwyd os byddai ariannu FPN 1 yn dychwelyd i'r gyfradd cyn y peilot, gallai hyn gael effaith negyddol ar forâl staff. Esboniai un gosodiad sut roedd eu staff wedi buddsoddi llawer o amser ac ymdrech er mwyn cyflenwi darpariaeth FPN, yn enwedig o ran datblygu'r arsylwadau/proffiliau plant sy'n ofynnol, ac y bydden nhw'n teimlo'n ddigalon os byddai'r gyfradd ariannu'n dychwelyd i'r raddfa cyn y peilot, oherwydd y bydden nhw'n teimlo nad oedd eu hymdrechion yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

“Byddai fel ‘O! Yr holl waith ‘na a dydyn nhw ddim yn teimlo'n bod ni'n werth e’.
Byddai'r Pwyllgor yn ddig.”

Roedd llawer o'r rhai a holwyd yn poeni y byddai cynnig cyfradd ariannu uwch am gyfnod prawf dim ond i'w leihau yn ôl i'r gyfradd wreiddiol, yn fwy niweidiol na pheidio cynnig cyfradd uwch o gwbl. Mynegwyd ofn y byddai hyn yn cael ei ganfod gan ddarparwyr fel tynnu rhywbeth oddi wrthyn nhw, yn hytrach na dychwelyd i'r 'status quo'. Gall hyn yn ei dro annog mwy o ddarparwyr ar draws gosodiadau nas cynhaliwyd i ystyried os yw parhau i gyflenwi FPN 1 yn ddewis hyfyw iddynt.

Nodai cynrychiolwyr tîm Hawl Bore Oes Cyngor Sir y Fflint ar adeg ein cyfweiliad (Medi 2019) nad oedd nifer o osodiadau nas cynhaliwyd wedi cadarnhau eto os y bydden nhw'n parhau i gyflenwi FPN 1 o Ionawr 2020 ymlaen. Ymddengys fod y gosodiadau hyn yn aros i weld faint fydd y gyfradd ariannu cyn ymroi i hyn.

4. Casgliadau ac argymhellion

Mae'r holl ddarparwyr gofal plant yn Sir y Fflint a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi croesawu'r cynnydd yn yr ariannu sydd ar gael i gyflenwi darpariaeth FPN 1 yn ystod y cyfnod peilot. I lawer, mae'r incwm ychwanegol a enillwyd o'r gyfradd ariannu wedi eu galluogi nhw i brynu offer ac hyfforddiant i'w staff a fyddai'n eu galluogi nhw i wella ansawdd eu darpariaeth FPN 1.

I eraill, roedd yr ariannu ychwanegol wedi sicrhau bod cyflenwi FPN 1 yn ddewis hyfyw yn ariannol i'w gosodiad, yn hytrach nac un oedd wedi ei gymorthdalw gan incwm gofal plant a/neu wedi ei gyflenwi ar golled er mwyn denu lleoedd gofal plant ymhlith grwpiau oedran iau. I ychydig o osodiadau, roedd y cynnydd mewn cyfradd ariannu wedi gwneud y gwahaniaeth rhwng parhau i weithredu fel gosodiad sy'n hyfyw yn ariannol, neu gau.

Nid yw'n bosibl i gyrraedd unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn â'r effaith, os oes un, mae'r gyfradd ariannu peilot wedi cael ar gynllunio tymor hwy a chynaliadwyedd y darparwyr, oherwydd mai dim ond am hyd tymor byr y peilot gytunwyd y gyfradd. Fel y cyfryw, roedd unrhyw newidiadau a wnaed wedi eu ffocysu ar gyfnod byr y peilot. Fodd bynnag, roedd darparwyr wedi nodi y bydden nhw'n fwy tebygol i barhau gyda'u darpariaeth FPN 1 gyfredol os byddai'r gyfradd ariannu peilot yn parhau i'r dyfodol.

Mae llawer o ddarparwyr wedi lleisio gofidiau, fodd bynnag, pe bai'r gyfradd ariannu yn dychwelyd i'w lefel cyn y peilot, hwyrach na fyddai eu cyflenwi parhaol o FPN 1 yn gynaliadwy y tu hwnt i'r tymor byr iawn. Gellir dadlau y gallai fod o fudd i'r darparwyr i leisio'r gofidiau hyn er mwyn annog cyfradd ariannu uwch barhaol i'r dyfodol. Ond, fodd bynnag, ychydig o le sydd i ddadlau fod y gwahaniaeth rhwng y gyfradd ariannu a gynigir i gyflenwi gofal plant a ariennir trwy'r Cynnig Gofal Plant a'r gyfradd ariannu i gyflenwi FPN 1 yn arwyddocaol, ac y mae darparwyr yn ymwybodol o hynny. Mae un neu ddau o ddarparwyr yn Sir y Fflint eisoes wedi peidio â chyflenwi FPN 1, gan ddyfynnu'r bwloch cyllido hwn am un o'r prif rhesymau am beidio a gwneud hynny.

Nodai un darparydd na fyddai cyfradd ariannu uwch barhaol ar gyfer FPN 1 yn ddigon i'w hannog i barhau gyda'u darpariaeth, oherwydd y gwaith arsylwi ychwanegol a'r arolygon sy'n gysylltiedig â chyflenwi FPN 1 o'i gymharu a gofal plant.

Gan fod rhai gosodiadau nas cynhelir yn Sir y Fflint eisoes wedi peidio â chyflenwi FPN 1, ni ellir anwybyddu honiadau gan rhai darparwyr na fyddant yn cyflenwi FPN os na chedwir y gyfradd ariannu peilot. Pe byddai darparwyr gofal plant nas cynhelir yn Sir y Fflint yn peidio â chyflenwi FPN 1, gallai hyn yn ei dro arwain at nifer o ganlyniadau canlynol posibl. Y cyntaf fyddai'r pwysau a roddid ar sector ysgolion a gynhelir i gwrdd â'r diffyg ar ran darpariaeth FPN a fyddai wedi cael ei greu o ganlyniad i hyn.

Hyd yn oed os byddai modd i osodiadau a gynhelir i gyflenwi'r holl ddarpariaeth FPN 1 sydd ei angen, byddai hyn yn creu gofidiau ynglŷn â'r diffyg dewis gan rhieni, yn enwedig oherwydd teimladau gan rhai rhieni na fyddai gosodiad ysgol yn addas ar gyfer eu plentyn yn dair oed. Mae rhai gosodiadau gofal plant nas cynhelir yn honni pe byddent yn gweithredu fel darparwyr gofal plant yn unig, efallai na fydden nhw'n medru denu plant iau os na fydden nhw hefyd yn gallu cynnig darpariaeth FPN pan fyddent yn troi'n dair oed. Roedd y darparwyr hyn yn gofidio na fydden nhw'n gallu parhau fel busnes masnachol hyfyw pe digwyddai hyn. Gallai hyn greu prinder llefydd ar gyfer gofal plant, iau (0 i 2 oed) yn ogystal â gofal cofleidiol ar gyfer plant hŷn.

4.1 Argymhellion

- Ystyried parhau gyda'r gyfradd ariannu uwch a gyflwynwyd yn Sir y Fflint i gyflenwi FPN 1 ar gyfer gosodiadau nas cynhelir er mwyn sicrhau darpariaeth ddigonol o addysg blynyddoedd cynnar i blant tair blwydd oed yn y dyfodol.
- Archwilio dichonoldeb bod y gyfradd a delir i gyflenwi FPN yn dal i gyd-fynd â'r gyfradd a delir am gyflenwi gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant i Gymru, a
- Archwilio dichonoldeb bod pob awdurdod lleol yn talu'r un gyfradd am gyflenwi FPN ac i alinio hyn gyda'r gyfradd a gynigir i gyflenwi gofal plant o fewn y Cynnig Gofal Plant i Gymru.

5. Astudiaethau achos

Astudiaeth Achos 1

Mae Meithrinfa 1 yn Feithrinfa Ddydd brofiadol sy'n gweithredu yn Sir y Fflint ac ar draws ei ffiniau, gan ei bod yn agos i Wrecsam a Sir Gaer. Cofrestrwyd y feithrinfa i dderbyn i fyny i 38 o blant o chwe mis i 12 oed. Yn ystod y cyfnod ariannu peilot (lonawr hyd at Gorffennaf 2019) fe ddarparai'r feithrinfa ddwy awr y dydd o addysg FPN 1 i chwe phlentyn. Roedd y feithrinfa hefyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgol leol a chylch chwarae arall i ddarparu gofal cofleidiol i naw plentyn sy'n derbyn mynediad i addysg FPN 1 yn y gosodiadau hyn.

Cyn y cyfnod peilot, roedd y gyfradd ariannu ar gyfer cyflenwi FPN 1 a dderbyniwyd gan y gosodiad yn ychydig yn is na'r gyfradd gofal plant a godwyd ar rhieni oedd yn talu ffioedd, ac yn sylweddol is na'r gyfradd gofal plant a dderbyniwyd ar gyfer plant a gefnogwyd gan y Cynnig Gofal Plant i Gymru.

“Nid yw'r gyfradd ariannu hyd yn oed yn ddigon i dalu cyflog y staff a chostau. Defnyddiwyd y ffioedd a dderbyniwyd oddi wrth ein darpariaeth gofal plant i gymorthdal cyflenwi FPN 1” (arweinydd gosodiad)

Gwnaeth y gosodiad barhau i ddarparu addysg FPN 1 o dan y gyfradd ariannu flaenorol, er nad oedd yn hyfyw yn fasnachol i wneud hynny. Y rheswm am hyn oedd y ffaith bod y feithrinfa yn dibynnu ar ddarparu addysg gynnar i blant tair oed yn ei gosodiad er mwyn denu plant iau i gymryd lleoedd nawr, gan wybod y bydden nhw'n medru derbyn FPN 1 o fewn yr un gosodiad nes ymlaen. Mewn gwirionedd, roedden nhw'n darparu FPN 1 fel “loss leader”. Fodd bynnag, o dan y gyfradd ariannu peilot uwch, gallai'r feithrinfa ystyried darpariaeth FPN 1 fel cyflenwad hyfyw yn fasnachol ynddo ei hun.

Y dyfodol

Pe bai'r gyfradd ariannu am ddarparu FPN 1 yn aros fel y gyfradd peilot, yna byddai'r gosodiad yn parhau i gyflenwi sesiynau addysg Hawl Bore Oes, er bod y llwyth gwaith, a lefel y craffu a'r arsylwi sy'n gysylltiedig ag e, yn uwch na'r hyn sy'n gysylltiedig â gofal plant.

Ar y llaw arall, pe bai'r gyfradd ariannu'n mynd yn ôl i'r gyfradd flaenorol, byddai'r gosodiad yn teimlo'r rheidrwydd i ddychwelyd at gyflenwi FPN 1 fel “loss leader”. Fodd bynnag, pe bai'r bwlch cyllido rhwng darparu FPN 1 a gofal plant yn parhau y tu hwnt i'r tymor byr, yna byddai'r feithrinfa'n gorfod ddwys ystyried os byddai parhau i gyflenwi FPN 1 yn ddewis cynaliadwy.

Pe bai'r feithrinfa'n penderfynu i beidio â chyflenwi FPN 1, mae yna bosibilrwydd y gellid gydbwysu'r diffyg mewn darpariaeth gan gynydd mewn darpariaeth yn yr ysgolion lleol (gan fwrw bod ganddynt leoedd digonol i wneud hynny). Fodd bynnag, byddai hyn yn lleihau dewis y rhieni o ran gosodiadau addysg gynnar. Heb gyflenwi FPN 1, byddai'r feithrinfa yn dibynnu ar ddarpariaeth gofal plant i grwpiau oedran iau (0 i 2 flwydd oed) fel ei phrif ffynhonnell o incwm. Am y rhesymau a nodir uchod, os na fydden nhw'n darparu FPN 1, gallai'r feithrinfa hefyd golli plant yn yr oedran is.

Gallai'r lleihad posibl hwn, gyda chymhareb staffio uwch, a felly costau sy'n gysylltiedig â grwpiau iau, wneud y gosodiad yn anghynnaladwy yn ariannol.

Pe bai dilyniant tebyg o ddiwyddiadau ar draws gosodiadau nas cynhaliwyd eraill yn Sir y Fflint, gallai achosi fwy o bwysau ar osodiadau a gynhelir i darpari FPN 1, a diffyg o ran cyflenwad darpariaeth gofal plant ar gyfer grwpiau oedran iau oherwydd y lleihad yn y nifer o ddarparwyr nas cynhaliwyd.

Astudiaeth achos 2

Cylch chwarae plant o dan pump

Mae'r cylch chwarae wedi bod yn darparu gofal plant ar gyfer plant rhwng dwy a phedair oed ers dros 20 mlynedd. Tan yn ddiweddar, byddai'r gosodiad yn rhedeg sesiynau o 11.30 yb tan 3.15 ym mewn neuadd ieuencid sy'n cael ei rhannu ac sy'n rhan o'r ysgol gynradd leol. Roedd y gosodiad mewn perygl o gau gan nad oedd ei incwm yn ddigon i gwrdd â chostau gorbenion megis rhent a staff.

Roedd yr ysgol drws nesaf wastad wedi bod yn gefnogol, gan ei bod yn darparu gofal cofleidiol ar gyfer plant sy'n cyrchu addysg FPN o fewn yr ysgol. Oherwydd hynny, nid oedd yr ysgol am weld y gosodiad yn cau. Ym mis Hydref 2018 cynigiodd yr ysgol ofod i'r gosodiad lle y gallent weithredu. Roedd y gofod yn yr ysgol ychydig yn llai na'r gofod blaenorol, ac, fel canlyniad, roedd y nifer o blant y gallent dderbyn wedi mynd lawr o 19 i 15.

Fodd bynnag, oherwydd y symud, roedd y gosodiad nawr yn medru gweithredu o 8.00 yb tan 3.15 ym am bum niwrnod yr wythnos. Oherwydd hyn roedd gan y gosodiad y posibilrwydd o gyflenwi FPN 1 i blant tair oed mewn sesiynau dwy awr pan fo'r galw am ddarpariaeth hawl bore oes ar ei uchaf. Byddai ymestyn yr oriau agor hefyd yn galluogi'r gosodiad i gynnig gofal cofleidiol i blant cyn ysgol, gofal plant dydd llawn i blant dwy a thair oed, a gofal cofleidiol i blant sy'n cyrchu FPN o fewn yr ysgol. Ond, byddai ymestyn yr oriau hefyd yn codi costau staffio a golygu y byddai rhaid i staff presennol weithio oriau hwy.

Prif flaenoriaeth y gosodiad yw sicrhau darpariaeth o safon uchel. Felly, er mwyn sicrhau fod yr opsiwn o ymestyn yr oriau yn hyfyw yn ariannol, roedd rhaid sicrhau y byddai'r incwm yn ddigon, nid yn unig i gwrdd â chyflog y staff, ond hefyd i alluogi aelodau'r staff i gyrchu'r adnoddau a hyfforddiant y byddent eu hangen er mwyn parhau i gyflenwi darpariaeth FPN 1 o ansawdd uchel. Y gyfradd ariannu uwch ar gyfer gosodiadau nas cynhelir a gynhigiwyd fel rhan o'r peilot oedd yr elfen allweddol a wnaeth yr opsiwn hwn yn hyfyw yn ariannol i'r gosodiad.

Ers mis Hydref 2018, mae'r gosodiad wedi bod yn gweithredu fel meithrinfa ddydd llawn mewn stafell ei hun sy'n ddefnydd unig o fewn yr ysgol. Gall rhieni gyrchu eu haddysg gynnar (FPN 1) a gofal cofleidiol tu fewn yr un adeilad waeth beth y bont yn cymryd eu horiau FPN 1 gyda'r ysgol neu yng ngosodiad y cylch chwarae. Mae cael darpariwydd o fewn yr ysgol a fydd yn bwydo ei chymeriant hefyd wedi bod o fudd i'r ysgol. Mae ariannu i gyflenwi ddwy awr o addysg FPN 1 bob dydd yn cyfrannu treian o drosiant blynyddol y gosodiad.

Tra bo'r ariannu ar gyfer cyflenwi FPN 1 yn aros ar gyfradd y peilot, bydd strwythur gweithredu presennol y gosodiad yn hyfyw. Ond, pe bai'r gyfradd yn syrthio i'w lefel flaenorol, ofnai'r gosodiad hyd yn oed os bydden nhw'n medru parhâi i gyflenwi'r un ddarpariaeth, ni fyddai ganddynt yr arian i gyrchu'r un lefel o hyfforddiant i'r staff na phrynu offer ac adnoddau ar gyfer y plant.. Byddai hyn yn ei dro yn cael effaith negyddol ar ansawdd y ddarpariaeth FPN 1 y maent yn ei chynnig.

Pe bai'r gosodiad yn peidio â chyflenwi FPN 1, gallai ei chael hi'n anodd i aros yn gynaliadwy ar yr incwm a wnaed gan osodiad sydd ond yn darparu gofal dydd llawn i blant ddwy flwydd oed a gofal cofleidiol i blant tair a phedair oed. Byddai gan y gosodiad lai o blant i'w bwydo i mewn i'r ysgol, a

allai hefyd leihau cymeriant o blant pedair oed i'r ysgol bob blwyddyn. Hyd yn oed pe wrthbwysid y cwmp mewn darpariaeth FNP 1 yn y gosodiad gan gynnydd mewn darpariaeth FNP 1 yn yr ysgol, byddai'r newid yn dal i gyfyngu dewis rhieni ynglŷn ag i ba osodiad y byddent yn dymuno eu plentyn i gyrchu addysg blynyddoedd cynnar.

Pe bai'r gosodiad yn cau, yna byddai rhaid i rieni wneud trefniadau ar gyfer darpariaeth gofal plant amgen i blant dwy a thair oed. Yn ogystal, ni fyddai gan blant sy'n cyrchu FPN 1 yn yr ysgol ar hyn o bryd unrhyw fynediad at ofal cofleidiol o fewn i osodiad yr ysgol. Fel canlyniad, byddai rhaid i'r plant hyn naill ai gyrchu gofal plant ac FPN1 mewn dau leoliad gwahanol, a fyddai o bosibl yn gofyn am drafnidiaeth i symud o un lleoliad i'r llall, neu byddai rhaid i rieni symud eu plant i osodiad arall ar gyfer FPN 1 a gofal plant ill dau. Byddai hyn yn cael effaith bellach ar gymeriant plant tair a phedair oed i'r ysgol.

6. Atodiad

Cwestiynau a oedd wedi'u cynnwys yn yr arolwg darparwyr a wnaed gan Gyngor Sir y Fflint

1. Nifer y plant Hawl Bore Oes a ariennir
2. Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn sy'n gweithio â phlant HBO
3. Pan oedd y gyfradd yn £2.91 yr awr, sut oeddech chi'n teimlo am fod yn ddarparydd HBO? Allech chi restru cyfyngiadau neu heriau?
4. A yw'r £1.59 wedi gwneud gwahaniaeth i'ch gosodiad? Os felly, sut?
5. Sut mae'r £1.59 o ariannu ychwanegol wedi cael ei wario?
6. Pe bai'r gyfradd yn dychwelyd i £2.91 ar ddiwedd y peilot, a fyddai hynny yn effeithio eich penderfyniad i barhau i gyflenwi HBO? Os felly, sut?

Bydden ni'n croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol a fydddech chi'n dymuno eu gwneud: